

Rhif Cais: C20/0664/11/DA

Dyddiad Cofrestru: 21-08-2020

Math o Gais: Non-Material Amendment

Lleoliad: Gwasanaethau Garth Lôn Glan Môr, Bangor, Gwynedd, LL57 1AB

Cymuned: Bangor

Ward: Garth (Bangor)

Bwriad:

Cais ar gyfer gwneud diwygiad ansylweddol i ganiatad cynllunio cyfeirnod C20/0213/11/LL er mwyn dileu drws a chau'r agoriad i gydfynd a'r edrychiad cefn presennol / Application for a non-material amendment to planning permission reference C20/0213/11/LL so as to remove rear door and block opening to match existing rear elevation

Crynodeb o'r Argymhelliad: Caniatau gyda amodau



1. Disgrifiad:

Mae hwn yn gais ar gyfer gwneud diwygiad ansylweddol i ganiatad cynllunio cyfeirnod C20/0213/11/LL er mwyn dileu drws a chau'r agoriad i gydfynd a'r edrychiad cefn presennol. Caniatawyd gwelliannau i'r siop bresennol o dan ganiatad C20/0213/11/LL ac yr unig newid i'r bwriad yw dileu drws sydd wedi ei leoli yn edrychiad cefn yr adeilad.

2. Hanes Cynllunio Perthnasol:

C20/0213/11/LL 'Gwelliannau i'r siop presennol gan gynnwys gosod agoriadau newydd a chreu ramp allanol/Improvements to existing shop including new openings and the creation of an external ramp.' - wedi ei ganiataw ar 14/04/2020.

C07A/0477/11/HY 'CADW ARWYDD ANAWDURDODEDIG / RETENTION OF UNAUTHORISED SIGN' - wedi ei ganiataw er 06/08/2007.

3. Ymgynghoriadau:

A oes angen? Nagoes.

4. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:

A yw'r newid arfaethedig mor fawr fel ei fod yn cael effaith sy'n wahanol i'r effaith y mae'r cynllun datblygu gwreiddiol a gymeradwywyd yn ei chael?

Na fydd. Mae'r newid yn golygu dileu drws yn yr edrychiad cefn ac ei gau i gyd fynd a gweddill yr edrychiad cefn.

A fyddai'r newid arfaethedig yn cael effaith andwyol naill ai'n weledol neu o ran amwynder lleol?

Na fydd. Nid yw'r rhan yma o'r safle yn weledol o unrhyw safle cyhoeddus a mae'r newid yn golygu dileu drws yng nghefn yr adeilad yn unig.

A fyddai buddiannau unrhyw drydydd parti neu gorff yn cael eu rhoi o dan anfantais o ran Cynllunio?

Na fydd.

A fyddai'r newid arfaethedig yn gwrthdaro a pholisiau cynlluniau cenedlaethol neu gynlluniau datblygu?

Na fydd.

5. Unrhyw faterion/gwybodaeth pellach:

Dim.

6. Casgliadau:

Ystyrir fod y diwygiad i'r bwriad yn gwbl dderbyniol a ni ystyrir fod unrhyw effeithiau gwahanol i'r hyn a ganiatawyd eisoes.

7. Argymhelliad:

Cwblheir y diwygiad/au a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun(iau) / The amendment/s hereby permitted shall be carried out in strict conformity with the details shown on the plan(s):

Cwblheir y diwygiad/au a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynlluniau rhif P01 (Rev. C) a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad hwn. Er gwaethaf y diwygiadau a ganiateir drwy hyn rhaid cwblhau gweddill y datblygiad mewn cydymffurfiad gyda'r manylion ac amodau a gynhwysir o fewn caniatad cynllunio rhif C20/0213/11/LL.

The amendment/s hereby permitted shall be carried out in strict conformity with the details shown on the plans numbered P01 (Rev. C) submitted to the Local Planning Authority, and contained in the form of application and in any other documents accompanying such application unless condition(s) to amend them is/are included on this decision notice. Notwithstanding the amendments hereby approved the remainder of the development shall be carried out in accordance with the conditions and details contained within planning permission number C20/0213/11/LL.